# Cylch Gorchwyl a Threfniadau Gweithredu Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo:** 29 Mai 2025 (Yn weithredol o 1 Mehefin 2025) | **Fersiwn:** 11 |
| **Dyddiad Adolygu:** Yn flynyddol | |

## 1. Cyflwyniad

Yn unol ag Adran B, 3 a 7 o'r Rheolau Sefydlog, bydd y Bwrdd yn enwebu Pwyllgor bob blwyddyn sy'n cwmpasu'r gwaith archwilio. Bydd cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn cael ei ymestyn i gynnwys Llywodraethu Corfforaethol a Llywodraethu Gwybodaeth a bydd yn cael ei adnabod fel y **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflawni gofynion Adran B, 3 a 6 o'r Rheolau Sefydlog, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd enwebu Pwyllgor sy'n ymdrin â llywodraethu gwybodaeth.

Mae'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu manwl a osodwyd gan y Bwrdd mewn perthynas â'r Pwyllgor hwn wedi'u nodi isod.

Mae'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu hyn i'w darllen ochr yn ochr â'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu safonol sy'n berthnasol i bob pwyllgor.

## 2. Diben

Diben y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (“y Pwyllgor”) yw:

- **Cynghori** a rhoi **sicrwydd** i'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr (sef y Swyddog Atebol) ynghylch a oes trefniadau effeithiol ar waith drwy ddylunio a gweithredu fframwaith llywodraethu a sicrwydd corfforaethol y Sefydliad, i'w cefnogi wrth wneud penderfyniadau ac wrth gyflawni eu hatebolrwyddau yn unol â'r safonau llywodraethu da a bennwyd ar gyfer GIG Cymru;

- Lle y bo'n briodol, bydd y Pwyllgor yn **cynghori'r** Bwrdd a'r Prif Weithredwr ar ble, a sut, y gellir cryfhau a datblygu'r fframwaith llywodraethu corfforaethol a sicrwydd ymhellach;

- **Cymeradwyo** polisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill ar ran y Bwrdd yn unol â'r Cynllun Dirprwyo.

## 3. Pwerau Dirprwyedig

### Cylch gorchwyl

Rôl y Pwyllgor yw rhoi **sicrwydd** annibynnol i’r Bwrdd a’r Prif Weithredwr, bod systemau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer meysydd o fewn ei gylch gorchwyl, gan gynnwys sicrhau bod y trefniadau datblygu, ansawdd a gwella ansawdd priodol ar waith yn unol â Deddf Dyletswydd Ansawdd (Cymru).

Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Swyddogaeth Archwilio Mewnol
- Swyddogaeth Archwilio Allanol
- System risg a rheolaeth fewnol
- Trefniadau ariannol a chyfrifyddu (gan gynnwys caffael)
- Trefniadau llywodraethu corfforaethol a sicrwydd
- Trefniadau Seiberddiogelwch
- Trefniadau'r corff lletyol
- Trefniadau Cydweithio
- Llywodraethu Gwybodaeth a Thoriadau Data
- System Rheoli Perfformiad

Wrth gyflawni'r gwaith hwn, bydd y Pwyllgor yn defnyddio gwaith Archwilio Mewnol, Archwilio Allanol a swyddogaethau sicrwydd eraill yn bennaf, ond ni fydd yn cael ei gyfyngu i'r swyddogaethau archwilio hyn.

Bydd hefyd yn ceisio adroddiadau a sicrwydd gan gyfarwyddwyr a rheolwyr fel y bo'n briodol, gan ganolbwyntio ar y systemau cyffredinol o lywodraethu da, rheoli risg a rheolaeth fewnol, ynghyd â dangosyddion o'u heffeithiolrwydd.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu ac yn cytuno ar y rhaglen waith yn flynyddol, a bydd yn ei chyflwyno i'r Bwrdd er gwybodaeth iddo.

### Sicrwydd

O ran ei rôl o ran rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr, bydd y Pwyllgor yn ceisio sicrwydd bod y swyddogaethau o fewn ei gylch gwaith yn bodloni'r safonau a bennwyd ar gyfer GIG Cymru, ac yn rhoi sylwadau ar ddibynadwyedd ac uniondeb y swyddogaethau hyn.

Bydd y Pwyllgor yn cefnogi’r datganiadau datgelu i’r cyhoedd sy’n llifo o’r prosesau sicrwydd, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Bydd y Pwyllgor yn ceisio **sicrwydd** ynghylch y canlynol:

1.1 Effeithiolrwydd y system gyffredinol ar gyfer rheoli risg (system ar gyfer rheolaeth fewnol) a rheoli risgiau Strategol a Chorfforaethol o fewn y sefydliad.

1.2 Gweithgarwch cynlluniedig a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys sicrwydd ynghylch digonolrwydd ymateb y swyddogion gweithredol a rheolwyr i faterion a nodwyd gan weithgarwch archwilio, arolygu a sicrwydd arall a throsolwg o weithrediad camau gweithredu sy'n deillio o adolygiadau o'r fath.

1.3 Ystyried goblygiadau canfyddiadau gweithgarwch archwilio a sicrwydd ehangach sy'n berthnasol i weithrediadau'r Ymddiriedolaeth, a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried yn briodol ac y gweithredir arnynt i sicrhau datblygiad a gwelliant parhaus trefniadau llywodraethu'r sefydliad.

1.4 Y gwaith a wneir gan ffynonellau allweddol o sicrwydd allanol, yn arbennig, ond heb fod yn gyfyngedig i archwilwyr allanol yr Ymddiriedolaeth, wedi'i gynllunio a'i gydlynu'n briodol a bod canlyniadau gweithgarwch sicrwydd allanol yn ategu ac yn llywio (ond nid yw'n disodli) gweithgarwch sicrwydd mewnol.

1.5 Bod y gwaith a wneir gan yr ystod gyfan o gyrff adolygu allanol yn cael ei ddwyn i sylw’r Bwrdd a Phwyllgorau eraill y Bwrdd yn unol â’r Protocol Archwilio, er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn ymwybodol o’r angen i gydymffurfio â safonau cysylltiedig ac argymhellion y cyrff adolygu hyn, a'r risgiau o fethu â chydymffurfio.

1.6 Y system gyffredinol sydd ar waith ar gyfer archwilio clinigol i sicrhau bod swyddogaeth archwilio clinigol effeithiol*, drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (neu gyfwerth).

*__*Noder*__: *Rôl y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas ag archwilio clinigol yw ceisio sicrwydd ar y cynllun archwilio clinigol blynyddol cyffredinol, ei addasrwydd i'r diben a'i gyflawniad. Bydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn ceisio mwy o fanylion am y canlyniadau clinigol a'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad i archwiliad clinigol.*

1.7 Gwasanaeth gwrth-dwyll effeithiol sy'n bodloni'r safonau a osodwyd ar gyfer darparu atal twyll, fel y nodir yng Nghyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fel sy'n ofynnol gan drefniadau'r Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch, gan gynnwys strategaethau, cynlluniau gwaith blynyddol ac adroddiadau blynyddol.

1.8 Diogelwch yr wybodaeth a gesglir ac a ddefnyddir gan y sefydliad, gan gyfeirio’n benodol at Seiberddiogelwch, cydymffurfiaeth â Llywodraethu Gwybodaeth, a threfniadau rheoli cofnodion.

1.9 Unrhyw faterion y gall y Bwrdd neu’r Prif Weithredwr ofyn am gyngor yn eu cylch, gan gynnwys y prosesau a’r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig lle bo’n berthnasol.

1.10 Mae systemau ar gyfer adrodd ariannol i'r Bwrdd, gan gynnwys systemau rheoli cyllidebol, yn effeithiol.

1.11 Effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a defnydd economaidd o adnoddau

1.12 I ba raddau y mae'r sefydliad yn diogelu ac yn amddiffyn ei holl asedau.

1.13 Rhestr o Golledion a Thaliadau Arbennig, gan sicrhau bod colledion a thaliadau arbennig yn cael eu dileu yn unol â'r llwybr cymeradwyo a ddogfennir yn y Cynllun Dirprwyo

1.14 Darparu trosolwg, craffu a sicrwydd o gydymffurfio ag unrhyw ofynion datblygu a gwella mewn perthynas â systemau rheoli gwybodaeth sy'n cefnogi anghenion busnes, sy'n addas i'r diben ac sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol/arferion gorau mewn perthynas â Llywodraethu Gwybodaeth gan gynnwys:

- Deddf Diogelu Data 2018
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016
- Rheoliadau Rheoli Gwybodaeth Cleifion 2002
- Dyletswydd Hyder y Gyfraith Gyffredin
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)
- Codau Ymarfer a Chanllawiau fel y'u cyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Llywodraeth Cymru

1.15 Sicrwydd bod unrhyw drefniadau a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cytundeb Lletya.

1.16 Bod gan yr Ymddiriedolaeth gynllun priodol ar waith ar gyfer cynhyrchu'r Datganiadau Ariannol a'r Adroddiad Atebolrwydd, yn unol â'r terfynau amser statudol.

1.17 Bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith ar gyfer cymeradwyo, monitro a diweddaru Cytundebau Cydweithio e.e. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, cytundebau lefel Gwasanaeth.

1.18 Llywodraethu corfforaethol ar lefel pwyllgor, fel y cyfeirir ato yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (sicrhau bod systemau llywodraethu corfforaethol effeithiol yn unol â'r cylch gorchwyl yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (Cylchlythyrau Iechyd Cymru, Datganiadau o Ddiddordeb))

1.19 Bod gweithgarwch caffael wedi'i wneud yn unol â'r Cynllun Dirprwyo a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog

1.20 Ceisio sicrwydd ar y blaenoriaethu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i adolygu polisïau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

1.21 Y prosesau sicrwydd sylfaenol ar gyfer rheoli perfformiad y sefydliad, a'r broses ar gyfer sicrhau gallu'r sefydliad i gyflawni amcanion corfforaethol.

**Perfformiad a Gwella GIG Cymru**

1.22 Ceisio sicrwydd ynghylch y meysydd cydymffurfedd llywodraethu perthnasol, o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, fel yr amlinellir yn Atodlen Sicrwydd Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

**Penderfyniadau Dirprwyedig**

Bydd y Pwyllgor yn cefnogi'r Bwrdd o ran ei gyfrifoldebau am lywodraethu (gan gynnwys risg a rheoli) drwy **adolygu** a **chymeradwyo** fel y bo'n briodol:

1.23 Y polisïau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol, cyfreithiol, cod ymddygiad ac atebolrwydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

1.24 Y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer yr holl waith sy'n ymwneud â thwyll a llygredd fel y'u nodir yng Nghyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru ac fel sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch

1.25 Gweithdrefnau, Canllawiau a Phrotocolau Asesu Risg a’r Gofrestr Risg

1.26 Gweithdrefnau Rheoli Ariannol

1.27 Trefniadau sy'n ymwneud â chyflawni cyfrifoldeb yr Ymddiriedolaeth fel Derbynnydd Nwyddau ar gyfer eiddo cleifion

1.28 Polisïau sy'n ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth/Caldicott/Diogelu Data/Rhyddid Gwybodaeth.

**Gwneud Sylw / Argymhelliad i'r Bwrdd**

O ran ei rôl wrth ddarparu cyngor i'r Bwrdd, bydd y Pwyllgor yn gwneud **sylwadau ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd yn benodol** ar y canlynol:

1.29 Rheolau Sefydlog, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd (gan gynnwys dogfennau fframwaith cysylltiedig megis Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, fel y bo'n briodol), gan gynnwys ystyriaeth ffurfiol o unrhyw adroddiadau gan Ysgrifennydd y Bwrdd ar unrhyw ddiffyg cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog, a gwneud cynigion i'r Bwrdd ar unrhyw gamau gweithredu i'w cymryd.

1.30 Sicrhau bod cynllun dirprwyo effeithiol ar waith i sicrhau sicrwydd gweithredol, parhaus gan reolwyr ynghylch eu cyfrifoldebau a’u hatebolrwydd, boed yn uniongyrchol i’r Bwrdd a’r Prif Weithredwr neu drwy waith pwyllgorau’r Bwrdd

1.31 Polisïau cyfrifyddu, cyfrifon, ac adroddiad blynyddol y sefydliad, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau gwallau a nodwyd, Adroddiad ISA 260 'Cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu' a llythyr cynrychiolaeth y rheolwr i'r archwilwyr allanol

1.32 Pob datganiad datgelu sy'n ymwneud â risg a rheoli, yn enwedig y Datganiadau Ariannol Blynyddol, yr Adroddiad Atebolrwydd (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol) ynghyd ag unrhyw ddatganiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, barn archwilio allanol neu sicrwydd annibynnol priodol arall, cyn i'r Bwrdd eu cymeradwyo.

1.33 Digonolrwydd fframwaith llywodraethu a sicrwydd corfforaethol yr Ymddiriedolaeth a phrosesau ar gyfer cynnal system effeithiol o lywodraethu da, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar draws gweithgareddau'r sefydliad cyfan (clinigol ac anghlinigol).

## 4. Is-bwyllgorau/grwpiau

Gall y Pwyllgor sefydlu is-grwpiau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei rôl ond ar adeg adolygu'r ddogfen hon nid oedd unrhyw is-bwyllgorau yn weithredol.

## 5. Mynediad

Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol fynediad anghyfyngedig a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaeth ar unrhyw adeg, ac i'r gwrthwyneb.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod â swyddogion Archwilio Mewnol, Archwilio Allanol a Gwrth-dwyll heb bresenoldeb swyddogion o leiaf unwaith y flwyddyn.

Bydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol fynediad rhesymol at y Tîm Gweithredol ac uwch staff perthnasol eraill.

## 6. Aelodaeth, Mynychwyr a Chworwm

### 6.1 Aelodau

O leiaf dri aelod, yn cynnwys:

Cadeirydd — Cyfarwyddwr Anweithredol

Aelodau — Cyfarwyddwyr Anweithredol x 2

Ni fydd Cadeirydd y sefydliad yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ond gall Cadeirydd y Pwyllgor ei wahodd i fod yn bresennol fel sy'n briodol.

Gall y Pwyllgor hefyd gyfethol aelodau allanol annibynnol ychwanegol o’r tu allan i’r sefydliad i ddarparu sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd.

## 6.2 Mynychwyr

**Yn Bresennol:**

Bydd yr aelodau staff canlynol (neu eu dirprwyon) yn mynychu'r Pwyllgor fel mater o drefn i gyfrannu'n weithredol ato ac i roi sicrwydd:

- Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid (Arweinydd Gweithredol ar y Cyd ar gyfer y Pwyllgor)
- Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Busnes y Bwrdd (Cyd-Arweinydd Gweithredol y Pwyllgor)
- Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
- Pennaeth Archwilio Mewnol
- Cynrychiolydd Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid

Dylai aelodau eraill o'r Tîm Gweithredol fod yn bresennol o bryd i'w gilydd fel y mae Cadeirydd y Pwyllgor yn nodi.

Bydd hyd at ddau Gynrychiolydd o’r Undebau Llafur yn cael gwahoddiad parhaol i fynychu'r Pwyllgor. Yn ogystal â hyn, gwahoddir eraill o'r tu mewn neu o'r tu allan i'r sefydliad a ddylai fod yn bresennol ym marn y Pwyllgor, gan ystyried y materion dan ystyriaeth ym mhob cyfarfod.

Bydd gan y Prif Weithredwr wahoddiad parhaol a bydd yn cael ei wahodd i fynychu, i drafod y broses sicrwydd sy'n cefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gyda'r Pwyllgor, o leiaf unwaith y flwyddyn.

Bydd Cyfarwyddwr unrhyw gyrff a letyir yn mynychu’r Pwyllgor o leiaf unwaith y flwyddyn, neu yn unol â chais Cadeirydd y Pwyllgor, i roi sicrwydd i’r Pwyllgor bod y corff yn cydymffurfio â’r Cytundeb Lletya ac i amlygu a thrafod unrhyw feysydd risg neu ddiffyg cydymffurfio.

Bydd Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn mynychu'r Pwyllgor yn ôl yr angen neu yn unol â chais Cadeirydd y Pwyllgor, i roi sicrwydd ynghylch y trefniadau atal twyll.

## 6.3 Cworwm

Mae’n rhaid i o leiaf **ddau** aelod fod yn bresennol i sicrhau cworwm y Pwyllgor, a dylai un ohonynt fod yn Gadeirydd y Pwyllgor (neu'n gadeirydd y cyfarfod).

**7. Amlder y Cyfarfodydd**

Yn gyffredinol, bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bum gwaith yn ystod y flwyddyn neu fel arall fel y mae Cadeirydd y Pwyllgor yn barnu ei fod yn angenrheidiol - yn gyson â chynllun blynyddol Busnes Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Gall yr Archwiliwr Allanol neu'r Pennaeth Archwilio Mewnol ofyn i'r Cadeirydd alw cyfarfod os ydynt yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol.

**8. Perthnasoedd ac atebolrwyddau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau/Grwpiau:**[1]

Mae'n rhaid i'r Pwyllgor fod â pherthynas effeithiol â holl Bwyllgorau'r Bwrdd ac unrhyw bwyllgorau neu is-bwyllgorau eraill y Bwrdd fel y gall ddeall y system sicrwydd ar gyfer y Bwrdd yn ei chyfanrwydd. Mae'n bwysig iawn bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn parhau i fod yn ymwybodol o'i rôl benodol ac nad yw'n ceisio cyflawni rôl pwyllgorau eraill.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y sicrwydd a ddarperir drwy'r Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol a Llywodraethu a'r cynllun dirprwyo, gan sicrhau bod y rhain yn darparu cwmpas digonol ar draws pwyllgorau'r Bwrdd i'r Bwrdd ei hun gael sicrwydd ynghylch digonolrwydd fframwaith sicrwydd cyffredinol yr Ymddiriedolaeth.

**9. Trefniadau Adrodd a Sicrwydd**

Bydd y Pwyllgor yn darparu adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr ynglŷn â'r gwaith i gefnogi cylch gorchwyl y Pwyllgorau, yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gan gyfeirio'n benodol at ddigonoldeb y fframwaith sicrwydd, i ba raddau y caiff rheoli risg ei hymgorffori'n drwyadl drwy'r sefydliad, integreiddio trefniadau llywodraethu a phriodoldeb gweithgarwch hunanasesu yn erbyn safonau perthnasol. Bydd yr adroddiad hefyd yn cofnodi canlyniadau hunanasesu a gwerthuso'r Pwyllgor.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd drwy adroddiad cyfansawdd gan Gadeiryddion y Pwyllgorau, pan fo unrhyw faterion arwyddocaol yn cael eu dwyn i sylw'r Bwrdd.

**10. Perthnasedd y Rheolau Sefydlog i Fusnes y Pwyllgor**

[1] Mae cyfeiriad at Bwyllgorau/Grwpiau'r Bwrdd yn ymgorffori ei is-bwyllgorau, ei gydbwyllgorau a'i gyd-is-bwyllgorau yn ogystal â grwpiau eraill, megis Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, pan fo hyn yn briodol i gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio.

Mae'r gofynion ar gyfer cyflawni busnes fel y nodir yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth yr un mor berthnasol i weithrediad y Pwyllgor, ar wahân i'r meysydd canlynol:

a. Cworwm (gweler paragraff 6.3)